Cynllun Cofrestru Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus i Gymru

Public Health Practitioner Registration Scheme for Wales

# Diddordeb

## mewn Cofrestru fel Ymarferydd â Chofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU?

# Yn ystyried

## gwneud cais i Gynllun Cofrestru Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru?

**Bwriedir yr adnodd gwybodaeth hon i'ch helpu i gychwyn ar eich siwrnai i Gofrestru fel Ymarferydd ar Gofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU**

# Barod?

- Cewch ddechrau paratoi ar gyfer cofrestru ar unrhyw bwynt yn eich gyrfa

- Unwaith byddwch chi wedi bod yn gweithio ar lefel annibynnol am dros 2 flynedd, rydych yn gymwys i **WNEUD CAIS** i gynllun

- Ond mae'n syniad gwych dechrau cyn gynted â phosibl- oherwydd fe allwch lunio llawer o'ch portffolio, a chwblhau'r holl ddysgu, wrth ichi ddatblygu

- Siaradwch gyda'ch rheolwr llinell a chynnwys datblygu portffolio Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU yn eich gwerthusiad blynyddol, gan ddefnyddio'r Safonau i'ch helpu i gynllunio eich DPP ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae dogfen i Gyflogwyr a Rheolwyr Llinell ar gael. Mae dogfen i **GYFLOGWYR A RHEOLWYR LLINELL** ar gael.
link needed once you have web link

- Cwblhewch **SESIWN GYFLWYNIADOL AR-LEIN CYNLLUN COFRESTRU YMARFERWYR IECHYD CYHOEDDUS Y DU** ichi gael rhagor o wybodaeth am beth sy'n ofynnol

# Paratowch

1. Cwblhewch ffurflen mapio safonau a **HUNAN-ASESIAD**
Gellir defnyddio'r offeryn hwn i fapio eich profiad a'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth presennol yn unol ag 2il Rifyn o safonau ymarferwyr Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU. Bydd yn caniatáu ichi ddod i farn ynglŷn â'r hyn gallwch chi ei ddefnyddio o'ch profiad gwaith a dysgu hyd yma, gan eich helpu i ganfod unrhyw fylchau.

2. Crëwch ffolder Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU ar eich cyfrifiadur a dechrau tracio'r holl amlinellau modiwlau a thystysgrifau sydd gennych i fodloni pob un o Safonau Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU.

3. Penderfynwch ba fylchau sydd gennych yn eich gwybodaeth, a meddwl am ffyrdd o lenwi'r rhain.

4. Os oes safonau lle nad oes gennych ddim ond ychydig neu ddim esiamplau o ymarfer- efallai bydd angen ichi chwilio am secondiadau neu gyfleoedd i weithio ar raglenni gwahanol er mwyn ichi gyflawni'r dysgu drwy brofiad hwn.

# Ewch!

Ar ôl ichi gwblhau'r hunan-asesiad i gyd a chwblhau'r DPP perthnasol i lenwi unrhyw fylchau, rydych chi'n barod i wneud cais i gynllun rhanbarthol. Cewch weld pa gynllun rydych chi'n gymwys i ymuno ag ef yma (ukphr.org)

**COFRESTR IECHYD CYHOEDDUS Y DU – SUT I WNEUD CAIS I GOFRESTRU FEL YMARFERYDD**

Dechreuwch ystyried pa ddarnau o waith cryno y byddwch chi'n ysgrifennu amdanynt yn eich "sylwebaethau".

Cofiwch: nid mawr sydd orau bob amser- dewiswch waith sydd a) yn ddiweddar b) y buoch yn gweithio'n fwyaf annibynnol arno. Defnyddiwch fodiwlau'r Hyb dysgu i helpu i'ch arwain. Mae Cynllun Cofrestru Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rhoi cefnogaeth ar gyfer hyn

Rydych chi'n barod i ddechrau ysgrifennu eich portffolio- bydd yn cymryd 12-18 mis i gwblhau'r broses asesu a dilysu ffurfiol.

# Adnoddau Allweddol

**DOGFEN GANLLAW UKPHR**

Dyma'r llyfr rheolau ar gyfer pob proses sy'n ymwneud â phroses cofrestru ymarferwyr Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU

**DOGFEN GWYBODAETH ATEGOL UKPHR**

Mae hon yn cynnwys gwybodaeth fanwl ychwanegol ar safonau'r Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU

**SAFONAU UKPHR 2018 2IL RIFY**

Y Safonau eu hunain

**HYB DYSGU**

Cyfres o adnoddau modiwlaidd i'ch helpu i ddatblygu eich portffolio

## I gael rhagor o wybodaeth, ewch i

- Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU – Ymarferydd (ukphr.org)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cynllun Cofrestru Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru

UKPHR
Public Health Register
Protecting the public | improving practice

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales